

Pwyllgor Cyfle Cyfartal

COFNODION

Dyddiad:	17 Ionawr 2001
Amser:	9:30 am
Lleoliad:	Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol
Presennol: Aelodau	
Edwina Hart (Cadeirydd)	Gwr
Lorraine Barrett	De Caerdydd a Phenarth
Christine Gwyther	Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Ann Jones	Dyffryn Clwyd
Helen Mary Jones	Llanelli
David Melding	Canol De Cymru
Jonathan Morgan	Canol De Cymru
Janet Ryder	Gogledd Cymru
Owen John Thomas	Canol De Cymru
Ymgynghorwyr i'r Pwyllgor	
Kate Bennett	Comisiwn Cyfle Cyfartal
Mashuq Ally	Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol

Will Bee	Comisiwn Hawliau Anabledd
Swyddogion	
Alan LansdownIs	Adran Cynnal Disgyblion
Mike HarperIs	adran Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus
Russell Keith	Clerc y Pwyllgor
Julie Bragg	Dirprwy Glerc y Pwyllgor

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Christine Humphreys a Richard Edwards.

Eitem 1 ar yr Agenda: Adroddiad y Cadeirydd

Eitem Lafar

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor yn 2001 ac yn arbennig croesawodd Winston Roddick, Cwnsler Cyffredinol y Cynulliad Cenedlaethol, Damien O'Brien o Is-adran Materion Ewropeaidd y Cynulliad, Ruth Marks, Cyfarwyddwraig Chwarae Teg a Howard John, Cyfarwyddwr Anabledd Cymru.

1.2 Adroddodd y Cadeirydd ar sawl eitem a oedd wedi deillio o weithgareddau blaenorol y pwyllgor:

- Ar ddydd Llun, 15 Ionawr, trafododd y Cabinet drafodaethau'r Pwyllgor ynglŷn â phenodiadau cyhoeddus i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Byddai'r adroddiad a gynhyrchwyd gan Wendy Morgan yn mynd ymlaen nawr i gael ei drafod mewn cyfarfod llawn o'r Cynulliad ar 1 Chwefror. Byddai'n trafod y cynigion gyda chyd-Aelodau'r Cabinet a phob Aelod o'r Cynulliad a oedd yn rhan o'r broses penodiadau cyhoeddus er mwyn eu datblygu. Byddai'n trafod y posibilrwydd o gyfuno dwy uned penodiadau cyhoeddus y Cynulliad gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Cynulliad. Roedd y Cadeirydd yn bwriadu cyflwyno cynnig y dylai egwyddorion yr adroddiad gael sêl bendith mewn cyfarfod llawn. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r cynnig yn cael ei gyflwyno gan David Melding ac y byddai'r Cadeirydd yn ymateb ar ran y Cabinet;
- Roedd dau bapur i'w nodi ar faterion oedd yn ymwneud ag aseswyr annibynnol ar gyfer

penodiadau cyhoeddus a Chomisiynydd Penodiadau Cyhoeddus i Gymru. Adlewyrchai'r papurau y trafodaethau a gafwyd yn y pwyllgor gan osod y ffordd ymlaen. Ystyriai'r Aelodau mai nod tymor canolig fyddai sefydlu Comisiynydd i Gymru ac y dylai hyfforddiant ar recriwtio ac ar faterion cyfle cyfartal fod yn orfodol i aseswyr annibynnol. Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe byddai cydnabyddiaeth i aseswyr yn cael ei ystyried yn llawnach o gofio y byddai gofyn i lai ohonynt ymgymryd â chyfran mwy o waith. Dylid gosod nod o gael panel o aseswyr a fyddai'n adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru yn fras. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai swyddogion yn edrych ar foddau a dulliau o gydnabod aseswyr.

- Yn y cyfarfod diwethaf, roedd y Cadeirydd wedi gofyn am gyfarfod gyda Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad ac ACCAC er mwyn trafod y camau gweithredu oedd yn ymwneud ag Ymchwiliad Stephen Lawrence. Byddai'r cyfarfod yn awr yn cael ei gynnal ar 14 Chwefror a gobeithiai y byddai Aelodau'r Grŵp Llywio yn gallu bod yn bresennol.
- Roedd y Cadeirydd wedi cynnal trafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar yr archwiliad cydraddoldeb yr oeddynt yn ei gynnal ac roedd yn amlwg bod awdurdodau lleol yn gwneud cynnydd. Byddai CLILC yn rhoi cyflwyniad ar y sefyllfa bresennol yn y cyfarfod pwyllgor nesaf.

Eitem 2 ar yr Agenda: Ymchwiliad Stephen Lawrence.

2.1 Derbyniodd yr Aelodau wybodaeth y tu allan i'r pwyllgor gan yr Is-adran Cynnal Disgyblion ar y camau gweithredu a drafodwyd gan Weithgor Stephen Lawrence ar argymhellion addysg Adroddiad MacPherson. Cynigiodd y Cadeirydd bod Grŵp Llywio Stephen Lawrence yn cyfarfod â Dr Ally ar fyrder er mwyn trafod y wybodaeth a ddarparwyd. Disgwylir i'r argymhellion terfynol gan y gweithgor gael eu darparu er mwyn i'r Pwyllgor eu hystyried yn y cyfarfod nesaf.

Eitem 3 ar yr Agenda: Mesur Diwygio Cysylltiadau Hiliol

Cyflwyniad: Dr Mashuq Ally, Pennaeth y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol yng Nghymru

Papur: EOC-01-01(p.1)

3.1 Cynghorodd Dr Ally bod y Mesur Diwygio Cysylltiadau Hiliol (a ddaw i rym ym mis Ebrill 2001) yn cyflwyno datblygiad pwysig iawn i'r agenda cydraddoldeb hiliol ac roedd yn ategu'r Ddeddf Hawliau Dynol. Byddai'r Mesur Diwygio Cysylltiadau Hiliol (y Ddeddf) yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i hyrwyddo a dileu gwahaniaethu a byddai'n rhoi grymoedd gorfodi newydd i'r Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol (CRE). Roedd y Ddeddf yn rhoi diffiniad eang o awdurdodau cyhoeddus gan gynnwys y Cynulliad Cenedlaethol, y lluoedd arfog, adrannau'r llywodraeth a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac roedd hefyd yn ymestyn i'r sector preifat a chyrrff gwirfoddol a oedd yn cyflawni gwaith ar ran y sector cyhoeddus. Roedd gan yr Ysgrifennydd Cartref y disgresiwn i ychwanegu at y cyrff pe dymunai. Roedd eithriadau megis y Senedd, a'r gwasanaethau diogelwch, a rhai gweithgareddau neilltuol gan gynnwys mewnfudo a swyddogaethau cenedligrwydd a phenderfyniadau i beidio â dechrau achos troseddol. Roedd yn rhaid i'r Ysgrifennydd Cartref benodi monitoriaid i edrych ar yr eithriadau

hyn a gellid ychwanegu atynt pe ystyrid hynny'n angenrheidiol.

3.2 Roedd angen nodi sut y byddai'r ddyletswydd gyffredinol i ddileu gwahaniaethu ar sail hil ac i hybu cyfle cyfartal sy'n ofynnol gan y Ddeddf yn ymddangos fel petai yn cael ei chyflawni. Gallai'r Ysgrifennydd Cartref osod dyletswyddau penodol ar awdurdod cyhoeddus er mwyn iddynt gydymffurfio'n well â'r ddyletswydd gyffredinol. Byddai angen ymgynghori a chael caniatâd am unrhyw fecanwaith i osod dyletswyddau penodol ar gyrff o Gymru gan y Cynulliad. Mewn achosion o'r fath byddai angen ystyried beth fyddai rôl y pwyllgor hwn a Phwyllgorau eraill y Cynulliad. Un o'r prif anawsterau oedd nad oedd cyrff sector cyhoeddus wedi sylweddoli eto pa mor arwyddocaol oedd darpariaethau'r Ddeddf. Roedd gan y Cynulliad rôl wrth godi ymwybyddiaeth ymysg y sector cyhoeddus.

3.3 Roedd y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol wedi cael y ddyletswydd i ddatblygu Codau Ymarfer sy'n darparu canllaw i awdurdodau cyhoeddus ar sut i gyflawni eu dyletswyddau. Byddai gan y rhain rymoedd statudol ac ar sail y codau hyn y byddai achosion yn cael eu dwyn yn erbyn sefydliadau. Roedd gweithgorau yn cael eu sefydlu er mwyn datblygu Codau Ymarfer yn y sectorau cyhoeddus gwahanol ac roedd gofyn i'r Cynulliad gyfranogi. Mae'n rhaid i'r codau gael eu datblygu mewn ymgynghoriad a chyda cydweithrediad y cyrff perthnasol. Unwaith y cytunir arnynt byddai'r Codau Ymarfer yn cael eu cyflwyno i'r Ysgrifennydd Cartref. Byddai'r Ysgrifennydd Cartref yna'n eu cyflwyno gerbron y Senedd. Gobeithiai'r Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol gyflwyno'r Codau cyntaf i'r Swyddfa Gartref erbyn mis Tachwedd 2001 ar gyfer eu gweithredu yn 2002. Roeddynt eisoes wedi dechrau ar y gwaith cychwynol er mwyn osgoi unrhyw oedi.

3.4 Aeth Dr Ally yn ei flaen i amlinellu cynllun strwythurol y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol yng Nghymru a oedd wedi ei gryfhau er mwyn cyflawni gofynion y Ddeddf. Roedd tîm polisi'r Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol yn bwydo gwybodaeth drwy bwyllgorau amrywiol y Cynulliad ac roedd mewn cysylltiad â nifer o Weinidogion y Cynulliad. Roedd gan Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA) rôl werthfawr i'w chwarae yn y broses hon hefyd gan y byddai'n gallu cynghori ar y perspectif cymunedol. O 2001 hyd at 2003, byddai cynnydd yn yr adnoddau yn golygu y byddai'r Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol yn gallu gweithredu ym mhob maes yn y sector cyhoeddus a gallai gryfhau ei gyfranogiad yn y sector preifat. Roedd y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol hefyd yn awyddus i gryfhau ei waith gyda'r sector gwirfoddol, yn arbennig ymysg cymunedau du ac ethnig ble roedd seilwaith fregus a diffyg arweinyddiaeth ymddangosiadol.

3.5 Roedd strwythur y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol yn cynnwys Fforwm Weithredol a oedd yn cynnwys Dr Ally, dau gomisiynydd y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol yng Nghymru ac un o'r tu allan i Gymru. Roedd gan Bwyllgor Cymru, a oedd yn cynnwys Dr Ally a thri, o bosib pedwar, o Gomisiynwyr rôl bwysig i'w chwarae yn y fan hyn. Byddai'r pwyllgor ymgynghorol hefyd yn cael ei ddatblygu, a byddai'n cynnwys chwaraewyr allweddol o Gymru yr oedd gan y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol fewnbwn i'w gweithgareddau. Roedd y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol eisoes wedi cydweithredu â'r Comisiynau Cyfle Cyfartal a Hawliau Anabledd yn ogystal â chael perthynas dda â'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol.

3.6 Roedd y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol wedi gweithio gyda'i bartneriaid drwy gyfrwng y cynghorau cydraddoldeb hil a Rhwydwaith Cydraddoldeb Hil Gogledd Cymru. Gydag anogaeth y Swyddfa Gartref, roedd y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol ar fin ystyried ailstrwythuro'r cynghorau cydraddoldeb hil yng Nghymru a allai arwain at ehangu eu ffiniau a newid yn eu ffordd o weithio er mwyn adlewyrchu gofynion y Ddeddf. Gallai hyn arwain at sefydlu pum canolfan rhagoriaeth gan gynnwys rhwydweithiau o fudd-ddeiliaid. Gallai sefydliadau cryf gael eu datblygu a oedd â hygredd ac a allai chwarae rhan lawn ym mywyd Cymru.

3.7 Roedd gan AWEMA ffocws cyfyng o weithgareddau ond chwaraeodd ei rôl yn frwdfrydig. Byddai ganddi statws elusennol yn y dyfodol a byddai'n cael ei chadeirio gan Gomisiynydd ar y pryd hwnnw ac nid Dr Ally. Ar hyn o bryd roedd ganddi grwpiau ffocws mewn addysg, yr economi, iechyd, tai a'r hawl i bleidleisio. Gobeithwyd y byddai ganddi unedau ar wasanaethau cymdeithasol a llywodraeth leol ond roedd rhaid i AWEMA fod yn ofalus nad oedd yn ailadrodd gwaith y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol a oedd â chyfrifoldebau statudol yn y maes hwn hefyd.

3.8 Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth gan yr aelodau:

- Roedd y ffaith bod mewnfudo a swyddogaethau cenedligrwydd yn cael eu heithrio o'r Ddeddf yn golygu ei bod yn dal yn gyfreithlon i wahaniaethu yn yr ystyr hwnnw. Nododd Dr Ally ei bod yn gyfreithlon i'r Swyddfa Gartref ystyried materion a oedd yn ymwneud â chenedligrwydd ond nid o ran materion hil neu liw croen. Byddai'r Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol yn monitro'r ddarpariaeth hon ac ni fyddai'n wan ar y mater hwn;
- O safbwynt ai rôl y Fforwm Weithredol a'r Comisiynwyr oedd sicrhau bod y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol yng Nghymru yn dilyn arweiniad y DU. Er bod disgwyliadau Llundain ar ysgwyddau Pennaeth y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol yng Nghymru, dywedodd Dr Ally bod mwy o hyblygrwydd a rhyddid i ddatblygu strategaethau gwaith mewn cyd-destun Cymreig ac i roi perspectif y DU gyfan.
- Sut y digwyddodd bod AWEMA yn ymgymryd â'r gwaith Hawl i Bleidleisio yn hytrach na'r Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol ei hun. Deilliodd hyn gan na allai'r Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol fod yn rhan o agweddau gwleidyddol y fenter a bod AWEMA mewn gwell sefyllfa i sicrhau bod amcanion y project yn cael eu cyflawni.
- Mynegwyd pryder bod y penderfyniadau i beidio ag erlyn y tu allan i gwmpas y Ddeddf. Nid oedd y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol wedi cefnogi cynnwys y ddarpariaeth hon yn y Ddeddf ac roeddynt yn bwriadu mynd ar drywydd y mater hwn eto. Efallai y byddant yn ceisio dod ag achosion i'r Pwyllgor neu i'r Cynulliad er mwyn pwyslesio materion y dylid eu tynnu oddi yno.
- Pa waith roedd y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol yn ei wneud gyda chyrrff eraill. Roeddynt yn gweithio gyda BITC a chyrrff eraill ar y Strategaeth Datblygu Economaidd a gyda'r sector preifat drwy gyfrwng yr Her Arweinyddiaeth. Sefydlwyd Fforwm Her Arweinyddiaeth er mwyn ystyried y newidiadau o ganlyniad i sefydlu'r Cynulliad ac er mwyn galluogi'r sector preifat i ddeall ei chyfrifoldebau;
- Pa effaith a fyddai gweithgareddau cymunedol y Cynghorau Cydraddoldeb Hil yn ei gael pe byddai eu rôl yn cael eu newid. Ni ragwelir y byddai'r rôl gymunedol yn lleihau. Byddai'n parhau

ond byddai mwy o ffocws iddi fel bod y cyfleuster yn bodoli i weld sut yr oedd gweithgarwch gan sefydliadau cymunedol penodol, yn arbennig rhai gwirfoddol, yn gweithio. Byddai uned sector gwirfoddol y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol yn ceisio cyfuno adnoddau gan gyrff cyllido ac awdurdodau lleol ac yn darparu'r dulliau er mwyn cael mynediad i arian, hyffordiant a mynediad i amrediad o sefydliadau a oedd yn rhoi cymorth. Gofynnodd y Cadeirydd i swyddogion ystyried a fyddai ymweliad i Ogledd Cymru i gyfarfod â'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Hil yn ymarferol. Os na fyddai, cytunodd i'r awgrym y gellid gwahodd Cyfarwyddwr y Rhwydwaith i siarad â'r pwyllgor am eu rôl yn y cyfarfod nesaf.

3.9Gwahoddwyd Dr Ally gan y Cadeirydd i amlinellu ym mha fodd yr oedd am ddatblygu'r materion a oedd yn deillio o'r Ddeddf y bu yn gohebu arni yn ddiweddar. Nododd bod tair menter yn cael eu cynllunio:

- codi ymwybyddiaeth ymysg y sector cyhoeddus drwy gynnal cynhadledd bwysig ar y Ddeddf ym mis Mawrth neu fis Ebrill 2001;
- roedd seminarau gyda sefydliadau sector cyhoeddus megis CLILC, gwasanaeth yr heddlu ac Awdurdod Iechyd Bro Taf yn cael eu cynnal y mis hwn; ac
- sefydlu cynhadledd 'bord gron' o dan gadeiryddiaeth Cadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac o dan oruchwyliaeth gan y Cynulliad, mewn cydweithrediad â Phrif Weithredwyr CLILC, Awdurdod Iechyd Bro Taf a Chymdeithas Phrif Swyddogion yr Heddlu. Byddai hwn yn goruchwyllo tasglu gweithrediadau a oedd yn cynnwys pobl a enwebwyd gan y Prif Weithredwyr i gymryd rhan wrth ddrafftio Codau Ymarfer. Bydd y ford gron yn cael ei sefydlu'n fuan.

3.10Dyweddodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn cael gwahoddiad i gymryd rhan mewn trafodaethau a'r gynhadledd. Awgrymodd yr Aelodau na ddylai cyfansoddiad y ford gron fod â ffocws De Cymru iddi. Mewn ymateb i ymholiadau'r aelodau ar gyfansoddiad llawn y ford gron a chyfranogiad y Cynulliad Cenedlaethol wrth ddatblygu Codau Ymarfer ac yn y broses ymgynghori, gofynnodd y Cadeirydd i'r swyddogion baratoi papur ar gyfer y cyfarfod nesaf, yn dilyn ymgynghori â chyrrff cydraddoldeb, a oedd yn ymchwilio i'r opsiynau o sut i ddatblygu materion. Byddai hefyd yn mynd ar drywydd oblygiadau'r gwaith hwn i'r Cynulliad yn ei rôl fel Gweinidog ac yn ystyried y berthynas gyda'r Swyddfa Gartref. Cytunodd â'r awgrym bod aelod o dîm y Swyddfa Gartref a ddrafftiodd y Ddeddf yn cael gwahoddiad i gyfarfod y pwyllgor. Diolchodd i Dr Ally am ei gyflwyniad a nododd bod y berthynas 'hyd braich' gyda'r Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol yn bwysig.

Eitem 4 ar yr Agenda: Cydymffurfio â Chontractau

Cyflwyniad: Winston Roddick, Cwnsler Cyffredinol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Papur: EOC-01-01 (p.2)

4.1Eglurodd y Cadeirydd bod y mater a oedd gan y Cynulliad rymoedd i sicrhau bod ei is-contractwyr yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth cydraddoldeb yn eu polisiau a'u harferion eu hunain wedi bod

yn peri pryder i'r Pwyllgor am beth amser. Gofynnodd i Winston Roddick gynghori'r Pwyllgor ar y sefyllfa gyfreithiol o ran y mater hwn.

4.2 Eglurodd Mr Roddick nad asiantaeth gorfodi oedd y Cynulliad ac felly nid oedd yn gallu gorfodi cyfrifoldeb statudol yr is-gontractiwr fel cyflogwr. Yr unig beth y gallai'r Cynulliad ei wneud oedd gofyn i is-gontractwyr gydymffurfio â thermau contract safonol y Cynulliad. Pe byddai'r Cynulliad yn ceisio dwyn achos ar sail tor-contract pe byddai tystiolaeth nad oedd contractiwr wedi cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb, byddai o dan anfantais fawr wrth geisio casglu tystiolaeth a phrofi'r achos fel trydydd parti (gan na fyddai wedi bod yn rhan o'r gweithrediadau cychwynnol). Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y cyfleoedd ar gyfer dwyn achosion mor fach a niweidiol i gyfle cyfartal na fyddai'n werth mynd ar eu trywydd.

4.3 Fodd bynnag, roedd y Cynulliad mewn sefyllfa arbennig o dda i ddylanwadu ar y sawl yr oedd yn gwneud busnes â hwy. Nid oedd dim o'i le ar sefydliad cyhoeddus mawr yn ceisio gwneud busnes gyda rhywun oedd â chydwybod cydraddoldeb ac yn ceisio hybu cydraddoldeb yn y modd hwn. Roedd Adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru yn galluogi'r Cynulliad i ddatblygu ei bolisi yn y maes hwn drwy ddefnyddio ei ddyletswydd ei hun i ymgymryd â'i fusnes a'i swyddogaethau gyda'r bwriad o sicrhau cyfle cyfartal i bawb. Nid oedd cyfraith gwlad yn gwahardd y Cynulliad rhag mabwysiadu polisi o'r fath. Roedd deddfwriaeth caffael cyhoeddus Ewropeaidd yn caniatáu meini prawf ar gyfer dyfarnu contractau i gynnwys ystyriaethau cymdeithasol. Ond ni allai'r meini prawf hyn gyfyngu ar y rhestrau tendro a byddai gofyn i'r Cynulliad gael ystod eang o gwmnïau ar ei restrau tendro. Gallech fod â golwg ar ystyriaethau cymdeithasol wrth ystyried rhestrau o dendrwy'r er mwyn sicrhau gwerth am arian – ac nid gwerth am arian yn nhermau ariannol yn unig. Efallai y byddai angen newid ein polisi caffael ein hunain er mwyn galluogi i hyn ddigwydd yn y Cynulliad, gan nad oedd unrhyw ddiffyg mewn cyfraith gwlad na chyfraith Ewrop.

4.4 Diolchodd y Cadeirydd i Mr Roddick am roi'r ymateb y gobeithiai'r Pwyllgor amdano. Byddai'r Pwyllgor yn trafod yr egwyddorion y tu ôl i gaffael a byddai gofyn edrych arno yn eithaf manwl. Cynghorwyd y Pwyllgor gan Fiona Whyte o Uned Caffael y Cynulliad nad oedd y polisi presennol yn ystyried gwerth am arian ar unrhyw sail arall ar wahân i gost wrth ddyfarnu contractau. Roedd y rhain yn cynnwys materion trawbynciol megis cynaliadwyedd ac iechyd a diogelwch.

4.5 Codwyd y materion canlynol gan yr aelodau:

- Os yw'r Cynulliad yn dymuno defnyddio'r polisi hwn i annog cwmnïau drwy'r contractau yr oedd yn ei roi allan, a fyddai'n ddigon iddynt i gael polisi cyfle cyfartal neu a fyddai angen i'r Cynulliad gael prawf ei fod yn cael ei weithredu'n ymarferol? Nododd Mr Roddick os nad oedd yn cael ei weithredu'n ymarferol yna nid oedd yn werth cael y polisi. Ni fyddai hyn, fodd bynnag, yn hawdd ei brofi, gan bod polisi gan Adran yr Amgylchedd er enghraifft, i ymwneud yn unig â busnesau oedd ag arfer a ddilyswyd yn allanol ar allyriadau. Byddai'r Cynulliad am greu amgylchedd ble byddai cwmnïau sy'n hybu cydraddoldeb yn ei ystyried yn fantais i fusnes. Roedd Adran 120 yn hynod o eang ac yn cwmpasu holl fusnes y Cynulliad. Pe bai'r Pwyllgor yn

cytuno eu bod am ddatblygu'r polisi hwn mewn egwyddor, nododd y Cadeirydd y byddai hyn yn cael sgîl effaith mewn nifer o feysydd ac ar lawer o Weinidogion;

- A fyddai'r Cynulliad yn atebol dros arall am unrhyw dor yn y ddeddfwriaeth gan is-contractiwr? Ni all contractiwr sy'n comisiynu dorri dylestwydd statudol nad yw'n disgyn arno'i hun ac felly ni fyddai'r Cynulliad yn atebol;
- Yn rhan cymwyster technegol y broses tendro, a fyddai'r Cynulliad yn gallu gofyn a oedd yr ymgeisydd wedi torri deddfwriaeth cydraddoldeb yn y gorffennol? Roedd perygl i hyn fod yn afresymol pe byddai'r Cynulliad yn ceisio cael gwybodaeth o'r fath gan y byddai llawer yn dibynnu ar natur a maint y sefydliad dan sylw. Ni fyddai meini prawf o'r fath yn ddibynadwy gan y byddai oblygiadau dan y Ddeddf Hawliau Dynol yn ogystal. Nododd Dr Ally bod y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol, fel pob sefydliad cydraddoldeb arall, yn cadw cronfa ddata o wybodaeth am gwmnïau a erlynwyd yn y gorffennol;
- Dylai'r gwaith o fonitro contractau a ddyfernir gan y Cynulliad hefyd gwmpasu cyflwyno gwasanaethau yn yr ystyr ehangaf gan gyrff yn amrywio o Awdurdod Datblygu Cymru i sefydliadau sector gwirfoddol;
- A fyddai'r Cynulliad mewn perygl o fod yn agored i fwy na beirniadaeth am beidio â chydymffurfio â'i ddylestwyddau statudol ei hun o ran hybu cydraddoldeb? Dywedodd Mr Roddick y gallai beirniadaeth yn aml fod yn fwy niweidiol nag erlyn gan ei fod yn esgor ar gyhoeddusrwydd gwael. Gallai'r Cynulliad honni bod ganddo bolisi clir yn ei le a bod y contractwyr yn fodlon arno pan ddyfarnwyd y contract iddynt. Byddai'r Cynulliad wedi gwneud yr hyn a fedrai o fewn ei allu rhesymol i sicrhau bod y contractiwr yn cyrraedd y safonau. Byddai'n fodlon na fyddai cyfaddawdu ar statws y Cynulliad o ganlyniad i weithredoedd y contractiwr.

4.6 Pe byddai'r polisi hwn yn cael ei fabwysiadu, roedd Kate Bennett yn falch y byddai anabledd a rhyw yn "orfodadwy" yn yr un modd ag yr oedd gwahaniaethu ar sail hil o ganlyniad i'r Ddeddf. Teimlai Will Bee y byddai'r polisi yn agor meysydd i'r Pwyllgor a fyddai'n ei alluogi i ddatblygu'r economi ymhellach yng Nghymru, yn enwedig o gofio bod disgwyl i'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd gael ei hystyngi yn 2004 i gwmpasu cwmnïau bach.

4.7 Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad ar y cynnydd i gael ei ddarparu yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Mawrth gan bod yr aelodau yn hapus iawn i fynd ymlaen â datblygiad y polisi hwn. Er bod y gwaith angenrheidiol yn nwylo'r swyddogion yn bennaf, roedd yn disgwyl iddynt drafod y ffordd ymlaen gydag ymgynghorwyr cydraddoldeb. Byddai gofyn cael ymagwedd ofalus, wedi'i mesur a byddai angen gwahodd cyfreithwyr y Cynulliad i'r pwyllgor eto yn y dyfodol er mwyn iddynt gynghori ar y trefniadau sydd i'w rhoi yn eu lle.

Eitem 5 ar yr Agenda: rhaglen EQUAL: Cyflwyniad Gweithredu Cynllun Cymru: Damien O'Brien, Is-adran Materion Ewropeaidd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Ruth Marks, Cyfarwyddwraig, Chwarae Teg; a Howard John, Cyfarwyddwr, Anabledd Cymru

Papur: EOC-01-01(p.3)

5.1 Agorodd Damien O'Brien yr eitem drwy ddweud bod y Pwyllgor wedi gweld drafft gwaith o gynllun Prydain fawr mewn cyfarfod blaenorol. Dyma'r cyfle cyntaf iddo weld y Drafft Gynllun Gweithredu Cymru y bu ymgynghoriad eang arno. Rhagwelwyd y byddai'r ddogfen wedi ei chwblhau erbyn diwedd mis Chwefror.

5.2 Roedd EQUAL yn ymwneud â phobl. Menter gymunedol y GE ydoedd a oedd yn seiliedig ar ymagwedd newydd. Roedd yn chwilio am atebion cyffredin i broblemau gwahaniaethu ar gyfer y rhai a oedd yn chwilio am waith ac mewn gwaith. Byddai'n treialu a phrofi ffyrdd newydd o'u cael i gyflogaeth. Ar ddyfeisgarwch a chydweithrediad traws-genedlaethol y byddai'r pwyslais. Byddai'r prosiectau yn ceisio ymchwilio i'r hyn oedd yn gweithio a'r hyn nad oedd yn gweithio felly roedd cyfle i fethu ac i lwyddo wedi ei adeiladu o fewn y rhaglen. Bwydir gwersi a ddysgwyd gan arbenigedd pobl eraill i ddatblygiad y polisi a rhaglenni strwythurol yn y dyfodol. Ffocws y rhaglen fyddai datblygu gwaith ar feysydd polisi yr oedd angen ymdrin â hwy ar fyrder. Byddai'n dangos bod gan Gymru lawer i'w gynnig. Anelir projectau at grwpiau arbennig a byddai'n ceisio ymdrin â materion megis sut y gallai rhagor o bobl o'r grwpiau targed ddod yn hunan-gyflogedig.

5.3 Dywedodd Howard John bod ymdeimlad o berchenogaeth gwirioneddol o EQUAL ymysg cyrff cydraddoldeb. Roedd wedi eu caniatáu iddynt herio'r rhagdybiaethau a wneir am raglenni Ewropeaidd fel arfer. Newid diwylliant oedd nod y rhaglen. Roedd cysyniadau newydd yn ei gwneud yn rhaglen newydd ac nid yn fersiwn newydd o'r hen raglenni. Roedd y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y rhaglen hon yn llawer cryfach na'r un ar gyfer rhaglenni blaenorol. Roedd EQUAL yn cydnabod bod angen goresgyn rhwystrau cymdeithasol er mwyn i grwpiau gymryd rhan ym myd gwaith. Mesurir y gwahaniaethau o ran eu heffaith ar bolisiau cymdeithasol cenedlaethol a chyflogaeth.

5.4 Dywedodd Ruth Marks bod EQUAL yn ategu llawer o feysydd polisi eraill ac agenda prif-ffrydio'r Cynulliad; roedd targedu daearyddol yn bwydo i mewn i Cymunedau'n Gyntaf a byddai targedu grwpiau a dangynrychiolwyd yn bwydo i mewn i'r gwaith penodiadau cyhoeddus parhaus. Byddai'r Bartneriaeth Asiantaethau Ewropeaidd yn gallu cynghori a llywio'r gwaith o sefydlu cysylltiadau traws-genedlaethol. Byddai cysylltiadau o'r fath yn galluogi:

- Treialu syniadau ac ymagweddau newydd a dyfeisgar;
- Rhannu arfer gorau ledled Cymru a Lloegr; a,
- Datblygu ymagweddau ymarferol at ddatblygu cydraddoldeb yng Nghymru.

Ategodd yr hoffai i bob asiantaeth a fu'n rhan o lunio'r cynllun gweithredu gofnodi eu diolch i'r Is-adran Materion Ewropeaidd am eu cyfranogiad a'u hymrwymiad wrth weithio ar y rhaglen.

5.5 Y modd y byddai llwyddiant y rhaglen yn cael ei fesur fyddai archwilio prosiectau ar y modd y cawsant eu sefydlu a'r arfer da a ddangoswyd ganddynt – nid y nifer o unigolion a ddychwelasant i'r farchnad waith. Byddai cymhwyster y prosiectau yn cael ei seilio ar faint o'r gwersi y gobeithiant ei ddatblygu a'u cymhwyso ledled y wlad. Byddai'n rhaid i un neu fwy o'r prosiectau ddatblygu ffyrdd diogel cyfrinachol i hunan-adnabod data cydraddoldeb er mwyn monitro'r niferoedd.

5.6 Gwerth cyffredinol y rhaglen yng Nghymru fyddai £25 miliwn o'r presennol tan ddiwedd 2006 ar sail arian cyfatebol. Caiff y rhaglen ei lansio yng Nghymru ar 14 Mawrth a byddai'r cylch gwneud cynigion cyntaf yn cychwyn ar 1 Ebrill. Bydd angen sefydlu partneriaethau datblygu yn gywir a byddai'r rhaglenni gwaith yn cychwyn ar ddechrau'r flwyddyn. Dylai'r cysylltiadau fod yn iawn ac wedi eu ffocysu'n briodol. Bu'r berthynas rhwng y Cynulliad a'r Adrannau Addysg a Chyflogaeth yn un gadarnhaol ac roedd wedi dylanwadu ar bolisiau ond roedd y potensial i brif-ffrydio'n llwyddiannus wedi ei ehangu'n sylweddol yn sgîl sefydlu'r Cynulliad.

5.7 Mae'r bylchau yn y data yn y cynllun yn amlinellu'r gwendidau a'r camau sy'n cael eu cymryd i ymdrin â hwy. Roedd trafodaeth yn digwydd yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd a gyda'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol ynglŷn â diffyg argaeledd data, er bod data pennawd ar gael ar raddau difreintedd ac allgau yng Nghymru. Roedd rhestr hir o flaenoriaethau arfaethedig ar gyfer meysydd datblygu. Byddai grŵp cyswllt EQUAL Cymru yn ailymweld â hyn er mwyn ceisio blaenoriaethu o fewn hynny. Pwyllgor Rheoli Cymru fyddai'n rheoli'r broses. O ran ei weithredu, roedd llawer o bartneriaethau yng Nghymru ac roedd gofyn bod yn realistig am yr hyn y gellir ei reoli. Byddai gan grwpiau ar lawr gwlad y cyfle i gyfranogi a gallai sefydliadau nodi maes yr hoffent weithio ynddo drwy gyfrwng cronfa ddata WEFO.

5.8 Wrth ymateb i gwestiwn ynglŷn â phrosiectau oedd yn ymwneud ag iechyd galwedigaethol, dywedodd Damien O'Brien bod y mater o gadw pobl mewn cyflogaeth yn allweddol. Dim ond tua 5% o'r rhai a eth yn analluog i weithio a weithiodd fyth eto. O gofio am y lefelau uchel o analluedd yng Nghymru, roedd cadw pobl mewn swyddi yn faes allweddol i'w ystyried. Maes pwysig arall oedd y lefel uchel o ddiweithdra ymysg aelodau o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a'r ffaith eu bod yn tueddu i fod yn ddiwaith am gyfnodau hwy. Byddai angen gweithio gyda sefydliadau fel AWEMA er mwyn sicrhau bod grwpiau ar lawr gwlad yn gweld y potensial i gyfranogi.

5.9 Cynigiodd y Cadeirydd y dylid gwahodd Cyfarwyddiaeth Ystadegol y Cynulliad i ddynodi pa ddata oedd ar gael ganddynt hwy a'r sefydliadau cydraddoldeb i'r Pwyllgor.

Eitem 6 ar yr Agenda: Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Papur: EOC-08-00(min)

6.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol, cyn belled ag y bod enw etholaeth Christine Gwyther yn cael ei newid.

6.2 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n datblygu'r mater o hyfforddiant cydraddoldeb ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. Byddai'n cyfarfod â swyddogion, llefarwyr ar ran y pleidiau a'r Llywydd er mwyn datblygu'r rhaglen.

6.3 Ynglŷn â'r mater o enwi ystafelloedd o fewn adeilad newydd y Cynulliad, awgrymodd yr aelodau y

dylai arwresau Cymru a chymeriadau hanesyddol o'r cymunedau ethnig gael eu hystyried yn ogystal ag arwyr. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ystyried hyn yn rhinwedd ei swydd fel y Gweinidog â chyfrifoldeb am yr adeilad.

6.4 Cytunodd y Cadeirydd i gynnig y dylai'r Pwyllgor ystyried rhai argymhellion o adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar Allgau Cymdeithasol drwy wahodd aelod o'r Pwyllgor i fynychu cyfarfod yn y dyfodol.

6.5 Daeth y cyfarfod i ben am 12.25.